Ymgyrchu am well amodau gwaith a llesiant i

# weithwyr cymdeithasol

**Mae gweithwyr cymdeithasol yn gyfrifol, pob dydd, am wneud penderfyniadau a all newid bywydau plant ag oedolion.**

Mae rôl mor fedrus â hon yn golygu buddsoddiad sylweddol gan y llywodraeth a gan weithwyr cymdeithasol eu hunain, cyn iddynt raddio yn  ogystal ag yn ystod eu hyfforddiant parhaus.

Mae'n hollol synhwyrol i gael y gorau o'r buddsoddiad hwn: i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, i weithwyr cymdeithasol ac i'r trethdalwr.

**Mae Cymdeithas Brydeinig Gweithwyr Cymdeithasol; Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol a Phrifysgol Sba Caerfaddon** yn cynnal arolygon rheolaidd i ddynodi materion allweddol sy'n effeithio ar weithwyr cymdeithasol a'r effaith dilynol ar wasanaethau gwaith cymdeithasol.

Cyfrannodd 3,421 o weithwyr cymdeithasol i'r arolwg, bron teirgwaith yn  fwy na'r nifer a gwblhaodd  yr arolwg cyntaf o Amodau Gwaith a Llesiant yn 2017.

Ar y cyfan, mae canlyniadau gwaith ymchwil **Dr Jermaine Ravalier** yn 2017 a 2018 yn  dangos pa mor gryf yw ymrwymiad gweithwyr cymdeithasol at eu gwaith a'u dymuniad i gael y canlyniadau gorau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, ond maent yn cael eu rhwystro trwy amodau gwaith a diffyg adnoddau.

> **"Mae gwaith cymdeithasol yn parhau i fod yn broffesiwn anhygoel o heriol - gyda lefelau uchel o straen yn y gweithle, achosion gwaith gormodol, heriau 'rannu desg', sefyll i mewn dros gydweithwyr sy'n wael a gweithdrefnau ag amserlenni beichus."**
>
> Dr Jermaine Ravalier,
> Awdur yr adroddiad,
> Prifysgol Sba Caerfaddon



BASW
Y gymdeithas i waith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol

SWU
Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol


# Gweithwyr Cymdeithasol y DU: Amodau Gwaith a Llesiant

(Awst 2018)

BATH SPA UNIVERSITY

## Canlyniadau allweddol

Mae amodau gwaith **yn waeth na 90%-95%** gweithwyr eraill yn  y DU, mewn swyddi yn sector gwaith cyhoeddus a phreifat.




**Mae  bron i hanner** o holl weithwyr cymdeithasol yn anfodlon yn eu swyddi o'i gymharu â 41% yn 2017.

Cafwyd ymateb gan **3,421** yn 2018, o'i gymharu â 1,600 yn 2017.




wedi mynd i'w gwaith tra'n wael o leiaf dwywaith yn y flwyddyn ddiwethaf.


Ar gyfartaledd bu gweithwyr cymdeithasol yn gweithio **64 diwrnod y flwyddyn** yn fwy na'r hyn oeddynt dan gontract i wneud (cyfartaledd o **11 awr yr wythnos**).




**60%** am geisio gadael ei swyddi presennol o fewn y 15 mis nesaf o'i gymharu â 52% llynedd.

**Lefelau straen** yn llawer uwch na chyfartaledd y DU. Y prif ddirboenau yn arbennig oedd lefelau uchel o achosion gwaith a gweinyddu, a'r diffyg adnoddau i ddefnyddwyr y gwasanaethau.

Bron i **70%** o weithwyr cymdeithasol yn eu gwaith er iddynt fod mor wael fe ddylent fod wedi cael amser o'u gwaith.



Bron i **40%** o'r rhai a ymatebodd yn edrych i adael y proffesiwn yn gyfan gwbl



**"Mae'n angenrheidiol i gael amgylcheddau gwaith cadarnhaol ar gyfer llesiant seicolegol a chorfforol gweithwyr cymdeithasol ac i gadw gweithwyr cymdeithasol yn eu swyddi. Os na chaiff hyn ei drin, yna rydym yn wynebu argyfwng. Rhaid i'r Llywodraeth wrando."**

John McGowan,
Ysgrifennydd Cyffredinol,
Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol

# Atebion

Ymgyrchu am well amodau gwaith a llesiant i **weithwyr cymdeithasol**

- ✓ Mae gweithwyr cymdeithasol angen amodau gwaith cadarnhaol proffesiynol i roi'r gwasanaethau gorau
- ✓ Arweiniad cryf i reoli galwadau gweithwyr cymdeithasol
- ✓ Hyfforddiant rheoli i reolwyr gwaith cymdeithasol
- ✓ Lleihau straen a rhoi cefnogaeth llesiant
- ✓ Datblygiad proffesiynol
- ✓ Amser am arolygiad adlewyrchol i weithio ar achosion cymhleth
- ✓ Achosion gwaith hydrin a dull cyson o ddosbarthu achosion gwaith
- ✓ Cyflogi mwy o weithwyr cymdeithasol
- ✓ Gwrthdroi'r diwylliant o osod bai, a rhoi parch a chefnogaeth gadarnhaol i weithwyr cymdeithasol
- ✓ Gweithio'n hyblyg ag o bellter gyda'r dechnoleg ddiweddaraf
- ✓ 80/20 – amser o ansawdd gydag unigolion a theuluoedd
- ✓ Cyflog teg a gyrfaoedd



Mae'n hollol hanfodol ein bod yn creu cysylltiadau gwaith gweddus i weithwyr cymdeithasol lle byddant yn cael gwneud y gwahaniaeth maent eisiau gwneud i fywydau pobl ac i ddatblygu eu sgiliau.

"Rydym yn gwybod beth yw prif elfennau llwyddiant: y gallu i gael at oruchwyliaeth broffesiynol, achosion gwaith hydrin, arweiniad a rheolaeth dda, cyflog teg a gyrfaoedd, llai o fiwrocratiaeth ddiangen, amser i fod gydag unigolion a theuluoedd a mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus a chefnogaeth llesiant.

"Cefais fy mhlesio gyda'r ymgom gefnogol gyda seneddwyr ar draws y pleidiau gwleidyddol. Mae angen i ni weithredu nawr ar yr ymgom hon gyda chyflogwyr a'r rhai sy'n creu polisïau."

Ruth Allen, Prif Weithredwraig BASW

# Gallwch helpu

Ymgyrchu am well amodau gwaith a llesiant i **weithwyr cymdeithasol**

## Cyflogwyr

- Rhannwch eich ymarferiadau a'ch addysg dda er mwyn cael gwasanaethau gwych.
- Aseswch eich gwasanaethau yn erbyn y safonau i gyflogwyr Gweithwyr Cymdeithasol ar draws y DU.
- Defnyddiwch Fframwaith Addysg a Dysg Broffesiynol Barhaus (CPEL) i ddatblygu eich timau yng Nghymru.
- Datblygiad proffesiynol a chefnogaeth llesiant - cysylltwch â BASW i weld sut gallwn eich helpu i gefnogi eich arweinyddion, rheolwyr a thimau gwaith cymdeithasol.

## Gweithwyr cymdeithasol

Annog eich cyd-weithwyr gwaith cymdeithasol i gefnogi ein hymgyrch am well amodau gwaith a llesiant i weithwyr cymdeithasol.

- Chwiliwch am fwy am yr ymgyrch ar **www.BASW.co.uk/working-conditions**.
- Rhannwch bosteri'r ymgyrch yn eich gweithle a gyda'ch cyd-weithwyr.
- Defnyddiwch ein templed ar-lein i ysgrifennu at eich Aelodau Cynulliad (AC) i amlygu'r materion a wynebir gan weithwyr cymdeithasol a'r gwaith rydych yn ei wneud pob dydd i gefnogi pobl a theuluoedd.
- Dangoswch eich cefnogaeth ar y cyfryngau cymdeithasol #UKsocialwork.
- Chwiliwch am fuddiannau BASW ag SWU i weithwyr cymdeithasol a chysylltwch â ni i wybod mwy.

## Aelodau'r Cynulliad (AC)

- Ysgrifennwch at Ysgrifenyddion Cabinet Cyllid a Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) i ofyn i waith cymdeithasol cael cyllid ag adnoddau iawn er mwyn cadw'r gweithlu a diogelu plant ag oedolion bregus.
- Ewch i gyfarfod a chynrychiolwyr SWU a BASW yn eich ardal i glywed mwy am eu gwaith a dod i ddeall am y gwaith maent yn ei wneud gyda phobl fregus.
- Gofynnwch am drafodaeth neu ymchwiliad pwyllgor ar effaith y toriadau ar wasanaethau cymdeithasol.

### Cysylltiadau


**Ruth Allen**
Prif Weithredwraig, BASW
ruth.allen@basw.co.uk
07702 517 559

**James Birchall**
Llywydd, SWU
president@swu-union.org.uk
07544 199 626

**Dr Jermaine Ravalier**
Awdur adroddiad,
Prifysgol Sba Caerfaddon
j.ravalier@bathspa.ac.uk
07850 683 008


**www.BASW.co.uk/working-conditions**

BASW
Y gymdeithas i waith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol

SWU
Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol